



Swyddfa Gartref



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

29 Mawrth 2018

DIGWYDDIAD YMGYNGHORI CAM-DRIN DOMESTIG – 10 Mai 2018

A chithau yn rhywun sydd ag arbenigedd a gwybodaeth am gam-drin domestig hoffwn eich gwneud yn ymwybodol i Ddigwyddiad Ymgynghori Cam-drin Domestig y Llywodraeth i Gymru a gynhelir ar ddydd Iau 10 Mai 2018 yng Nghaerdydd yn Neuadd y Ddinas.

Mae'r Llywodraeth yn trawsnewid ei dull o ymdrin â cham-drin domestig er mwyn sicrhau bod gan ddiodefwyr yr hyder i ddod ymlaen a rhoi adroddiadau am eu profiadau, gan fod yn dawel eu meddwl y bydd y wladwriaeth a'r system gyfiawnder yn gwneud popeth yn eu gallu i'w cefnogi nhw a'u plant, ac yn erlid yr un wnaeth eu cam-drin. Rydym wedi ymrwmo i gyflwyno Mesur Cam-drin Domestig drafft yn ystod y sesiwn hon, a fydd yn cynnwys cyflwyno diffiniad statudol newydd o gam-drin domestig, comisiynydd cam-drin domestig annibynnol a gorchymyn amddiffyn cam-drin domestig newydd. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd angen rhagor o ddeddfwriaeth i helpu diodefwyr a'r rhai sy'n goroesi i ailadeiladu eu bywydau ac i frwydro yn erbyn cam-drin domestig. Dyna pam ein bod hefyd yn datblygu pecyn gweithredu traws-lywodraethol i gynyddu ymwybyddiaeth, i gefnogi diodefwyr ac i sicrhau bod y rhai sy'n tramgwyddo yn cael eu hatal.

Diben y digwyddiad hwn yw cynnig cyfle i weithwyr proffesiynol, ymarferwyr a diodefwyr a goroeswyr i roi eu hawgrymiadau arbenigol wrth ddatblygu'r rhaglen waith. Mae arnom eisiau eich barn am ba newidiadau fydd yn gwneud gwelliannau gwirioneddol i amddiffyn a chefnogi diodefwyr ymhellach a dwyn y tramgwyddwyr o flaen eu gwell.

Bydd y digwyddiad hefyd yn rhoi cyfle i drafod a fforymau er mwyn cael sylwadau ac adborth ar gynigion y Llywodraeth.

Mae manylion sut i gofrestru a lleoliad y digwyddiad isod.

Y Digwyddiad

Cynhelir y digwyddiad rhwng 10.00 y bore a 3.00 y prynhawn ar 10 Mai yn Neuadd y Ddinas Caerdydd Cyfyngir y lle i 120 a bydd lleoedd yn cael eu dyrannu ar sail cyntaf i'r felin. Cewch wybod trwy e-bost os byddwch wedi cael lle yn y digwyddiad.

Er mwyn cofrestru eich diddordeb, anfonwch ateb i'r cyfeiriad e-bost canlynol:

domesticabuseconsultation2018@homeoffice.gsi.gov.uk

Darperir cinio brechdanau a bydd egwyl te a choffi yn cael eu darparu felly gadewch i ni wybod os oes gennych unrhyw anghenion dietegol, os gwelwch yn dda. Yn affodus ni allwn gynnig costau teithio i'r rhai sy'n cymryd rhan.

Lleoliad:

Mae Neuadd y Ddinas Caerdydd yng Nghanolfan Ddinesig Caerdydd a gellir ei chyrraedd ar droed, ar y ffordd neu trwy orsafoedd rheilffordd Caerdydd Canolog a Heol y Frenhines, Caerdydd. Ei chyfeiriad yw:

Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3ND

Mae map ar gael trwy ddilyn y [ddolen hon](#)

Parcio- Cynghorir ymwelwyr i ddefnyddio'r manau parcio a thalu o gwmpas Neuadd y Ddinas. Mae rhagor o wybodaeth am barcio yma:

<https://www.cardiffcityhall.com/parking/>

Dylai ymwelwyr sydd â gofynion arbennig o ran mynediad gysylltu â Neuadd y Ddinas ymlaen llaw ar 029 2087 1736.

Sylwer bod y digwyddiad hwn yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau ymgynghori rhanbarthol ar draws Cymru a Lloegr. Os gwyddoch am unrhyw randdeiliaid yr ydych chi'n meddwl y byddent yn hoffi dod i un o'n digwyddiadau eraill, cysylltwch â ni yn uniongyrchol yn y cyfeiriad e-bost isod gan roi eu henwau a'u manylion cyswllt:

domesticabuseconsultation2018@homeoffice.gsi.gov.uk

Christian Papaleontiou

Pennaeth y Tîm Amddiffyn y Cyhoedd
Y Swyddfa Gartref

Matthew Gould

Dirprwy Gyfarwyddwr Uned
Bolisi Cyfraith Droseddol
a Llysoedd Troseddol,
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder